# Y Pwyllgor Deisebau

| | |
|---|---|
| Lleoliad: | **Ystafell Bwyllgora 1 – Y Senedd** |
| Dyddiad: | **Dydd Mawrth, 25 Mawrth 2014** |
| Amser: | **09.34 - 11.00** |

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:
http://www.senedd.tv/archiveplayer.jsf?v=cy_200000_25_03_2014&t=0&l=cy

## Cofnodion Cryno:

| | |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | **William Powell (Cadeirydd)**<br>**Russell George**<br>**Bethan Jenkins**<br>**Joyce Watson** |
| Tystion: | **Margaret Everson, Bus Users UK Cymru**<br>**Jones, Defnyddwyr Bysiau Cymru** |
| Staff y Pwyllgor: | **Steve George (Clerc)**<br>**Kayleigh Driscoll (Dirprwy Glerc)**<br>**Kath Thomas (Dirprwy Glerc)**<br>**Helen Roberts (Cynghorydd Cyfreithiol)** |

**TRAWSGRIFIAD**

View the meeting transcript.

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

Croesawodd y Cadeirydd bawb i gyfarfod y Pwyllgor. Ni chafwyd ymddiheuriadau.

## 2 Y wybodaeth ddiweddaraf am ddeisebau blaenorol

### 2.1P-04-526 Gwnewch Senedd TV yn hygyrch i bobl fyddar

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunodd i:

- ofyn i'r deisebydd am ei ymateb i lythyr y Llywydd a, thrwy hynny, dynnu sylw at gynnig y Llywydd i drefnu cyfarfod i drafod y materion gyda'r staff perthnasol yn y Cynulliad; ac
- ysgrifennu at y Llywydd yn gofyn am eglurhad o'r gwaith a gafodd ei wneud mewn cysylltiad â'r cynllun peilot ac am wybodaeth bellach am y rhesymau dros y penderfyniad i'w ddal yn ôl.

### 2.2P-03-240 Diogelwch ar ffordd yr A40 yn Llanddewi Felffre

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunodd i ysgrifennu at y Gweinidog:

- i gael ei barn am awgrym y deisebydd ynghylch yr arwyddion rhybuddio o ran cyfyngiadau cyflymder ac, yn benodol:
    - ei barn ynghylch awgrym y deisebydd y byddai arwyddion sy'n dangos gwir gyflymder cerbydau yn llawer llai costus ac yn fwy effeithiol;
    - gwybodaeth bellach am gostau'r gwahanol arwyddion rhybuddio; a
- gwybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd o ran penodi Asiant Cyflogwyr

### 2.3P-04-506 Pasys bws am ddim / teithio rhatach i'r rhai sy'n hawlio budd-daliadau, myfyrwyr a phobl o dan 18 oed

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunodd i ysgrifennu at y deisebydd i ofyn am unrhyw sylwadau ar lythyr y Gweinidog, gan nodi y bydd y Cynulliad yn symud i gau'r ddeiseb o ystyried datganiad clir y Gweinidog nad oes ganddi unrhyw gynlluniau ar hyn o bryd i ymestyn cymhwysedd ar gyfer pasys bws rhatach.

### 2.4P-04-456 Dementia - Gallai hyn ddigwydd i chi

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunodd i ysgrifennu ar frys at y Gweinidog i:

- gyfleu sylwadau'r deisebydd a gofyn pa gamau a gymerwyd i gynnwys y deisebydd yn y Grwpiau Gorchwyl a Gorffen a'r ymgynghoriad, fel y nodwyd yn llythyr 3 Awst; a
- gofyn a yw'n bosibl o hyd i ystyried barn y deisebydd.

### 2.5P-04-490 Meddyginiaeth Gwrth-retrofeirysol yng Nghaerdydd

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunodd i ysgrifennu at:

- y Gweinidog i ofyn:
  - a yw ei swyddogion mewn sefyllfa i roi rhagor o fanylion ynghylch sut y penderfynwyd ar amcangyfrif o £15 miliwn a pha gyfran o hyn y gellir ei briodoli i arbedion ar feddyginiaethau HIV gwrth-retrofeirysol; ac
  - am wybodaeth benodol ynghylch y rhesymau dros hyd y cyfnodau presgripsiwn presennol am feddyginiaethau gwrth-retrofeirysol; ac
- at y deisebydd yn gofyn am sylwadau ar lythyr y Gweinidog a gwybodaeth gysylltiedig.

### 2.6P-04-492 Diagnosis o awtistiaeth ymysg plant

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth ar y ddeiseb a chytunodd i:

- ysgrifennu at y Gweinidog i groesawu ei hymateb a gofyn iddi hysbysu'r Pwyllgor o ddatblygiadau yn y meysydd a nodir yn y paragraff olaf ond un yn llythyr y deisebydd;
- mynegi pryder i'r Gweinidog ynghylch y diffyg ymateb gan ddau o'r Byrddau Iechyd a gofyn pa gamau y mae wedi'u cymryd i sicrhau y bydd y wybodaeth honno ar gael; ac
- yn unol â chais y deisebydd, rhannu'r grynodeb lawn o ymatebion â changen Sir Benfro o Gymdeithas Genedlaethol Awtistiaeth Cymru.

### 2.7P-04-481 Cau'r bwlch ar gyfer disgyblion byddar yng Nghymru

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth gan NDCS a chytunodd i edrych yn fwy manwl ar y mater o acwsteg mewn ysgolion, yn arbennig sut y gall y Rhaglen Ysgolion ar gyfer yr 21ain ganrif a rheoliadau adeiladu helpu i gynnal y gwelliannau.

### 2.8P-04-516 Gwneud gwyddor gwleidyddiaeth yn rhan orfodol o addysg

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth ar y ddeiseb a chytunodd i:

- ofyn am farn y deisebydd ar ymateb y Gweinidog; a

- gofyn am ragor o wybodaeth gan y grŵp llywio a sefydlwyd i oruchwylio'r diwygiadau i Fagloriaeth Cymru ynghylch unrhyw ystyriaethau sydd ganddynt i gynnwys gwyddor gwleidyddiaeth yn y cwricwlwm;
- aros am ganlyniadau'r holiadur sy'n cael ei ddosbarthu gan dîm addysg y Cynulliad; a
- gofyn i Glerc y Pwyllgor gadw mewn cysylltiad â'r Gwasanaeth Ymchwil ynghylch y gwaith o geisio â chael gwybodaeth mwy cynhwysfawr gan ysgolion ynghylch a ddylid cynnwys gwyddor gwleidyddiaeth yn eu cwricwlwm ABCh, a sut i wneud hynny.

### 2.9P-04-522 Asbestos mewn Ysgolion

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth ar y ddeiseb a chytunodd i:

- ysgrifennu at yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch i ofyn eu barn am y gwaith sy'n cael ei wneud mewn ysgolion yn Lloegr ac i ofyn pam nad oes gofyniad statudol i hysbysu myfyrwyr a rhieni o drefniadau rheoli asbestos mewn ysgolion; a
- gofyn am farn y deisebydd ynghylch y cyngor cyfreithiol a roddwyd yn y cyfarfod.

## 3 Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol - Cyfrifoldeb dros Faterion y Gymraeg.

Nododd yr Aelodau yr ohebiaeth gan Gadeirydd y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol ynghych cyfrifoldeb dros y Gymraeg

## 4 Sesiwn Dystiolaeth - Gwasanaethau Bysiau yng Nghymru

Bu’r tystion yn ateb cwestiynau gan aelodau’r Pwyllgor.

### 4.1P-04-475 Yn eisiau - Bysiau i Feirionnydd

### 4.2P-04-513 Achub gwasanaeth bws X94 Wrecsam/Abermo

### 4.3P-04-515 Darparu rhagor o arian ar gyfer Gwasanaethau Bysiau Cymru